Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH ✆ 029 2043 1700 ✆ 029 2043 1701
www.wcva.org.uk ✆ 0800 2888 329

Dechrau da i gynlluniau gwerth £40m

Bydd WCVA yn sicr o le amlwg ar yr agenda gyflogaeth yng Nghymru eleni ar ôl lansio dau gynllun gwerth miliynau o bunnoedd yr un yn llwyddiannus a fydd yn cynorthwyo grwpiau difreintiedig i gael gwaith

Yr oedd dros 400 o bobl yn bresennol yn y digwyddiadau teithiol i gyflwyno'r Porth Ymgysylltu a'r cynlluniau Marchnad Lafur Drosiannol (MLD) a fydd yn buddsoddi £40m dros dair blynedd.

Mae'r ddau gynllun yn rhan o strategaeth gydgysylltiedig i roi cyfle i'r grwpiau targed gael y sgiliau a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i symud ymlaen i waith.

Bydd y Porth yn buddsoddi mewn mudiadau sy'n hybu sgiliau a hyder unigolion ac yn eu symud ymlaen i 'gam nesaf' fel gwirfoddoli, hyfforddiant a chyflogaeth lawn neu gyflogaeth â chymorth.

Mae'r MLD yn enghraifft o 'gam nesaf' a bydd yn buddsoddi mewn mudiadau sy'n cynnig cyfnod o gyflogaeth a^ chymorth a phrofiad gwaith strwythuredig i grwpiau targed.

Mae'r Porth a MLD yn gynlluniau caffael yn hytrach na grantiau. Byddant yn cynnig contractau gwerth hyd at £150,000 a bydd unrhyw fudiad yn gallu gwneud cais trwy broses dendro.

Meddai Cyfarwyddwr Menter WCVA, Phil Fiander: 'Bydd WCVA yn cynnig amrywiaeth o gontractau i fudiadau i weithio gyda grwpiau targed penodol mewn ardaloedd penodol i gyflawni canlyniadau positif penodol.

'Gyda'r Porth, bydd y mudiadau'u hunain yn penderfynu pa weithgareddau fydd orau i gyflawni'r canlyniadau hyn. Bydd y MLD yn fwy rhagnodol o ran sut yr ydym am i fudiadau gynorthwyo unigolion, er mai'r mudiadau a fydd yn ennill y contractau fydd yn penderfynu pa fath o brofiad gwaith a ddarperir.

'Yn gyfnewid am hyn, bydd y mudiadau a fydd yn ennill y tendrau'n derbyn swm y cytunwyd arno.

'Byddwn yn cynghori unrhyw fudiad sydd â diddordeb i ddarllen y taflenni gwybodaeth sydd ar gael oddi wrth Lein Gymorth WCVA i ddysgu mwy am y ddau gynllun. Y cam nesaf fydd cwblhau holiadur i ymuno â rhestr o gyflenwyr cymeradwy ac wedyn byddwch yn derbyn gwybodaeth am gyfleoedd tendro perthnasol.

'Yr ydym yn rhagweld y bydd y gwahoddiadau cyntaf i dendro'n cael ei hanfon yn ystod Mehefin eleni.'

Bydd y Porth a MLD yn weithredol yng nghyn ardaloedd Amcan 1 Cymru – sydd bellach yn cael eu hadnabod fel Cydgyfeiriant – gyda MLD yn gynllun a fydd yn weithredol yn y Gogledd yn unig.

Ardaloedd Cydgyfeiriant Cymru yw Ynys Môn, Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Thorfaen.

Os hoffech gael taflenni gwybodaeth am y Porth a MLD, cysylltwch â Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329 neu help@wcva.org.uk.

Mae'r ddau gynllun yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chronfeydd Strwythurol Ewrop (Cronfa Gymdeithasol Ewrop).

WCVA yn cael swyddogaeth newydd i gefnogi Cymunedau yn Gyntaf

Mae'r Dirprwy Weinidog dros Adfywio, Leighton Andrews, wedi cyhoeddi newidiadau yn y trefniadau cefnogi cenedlaethol ar gyfer Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru, o 1 Ionawr ymlaen.

Ar ôl ymarfer caffael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae WCVA wedi ennill y contractau i ddarparu cyngor a chefnogaeth i bartneriaethau a gwasanaeth hyfforddi a datblygu.

Dywedodd Leighton Andrews: 'Y cysyniad gwreiddiol ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf oedd meithrin sgiliau a magu profiad a hyder pobl leol fel eu bod yn gallu nodi blaenoriaethau ar gyfer eu cymunedau ar ffurf cynllun gweithredu.

'Roedd y ddogfen ymgynghori yn glir bod angen ffocws cliriach ar Gymunedau yn Gyntaf yn awr ar fentrau adfywio ymarferol ac ar fynd i'r afael â thlodi – yn enwedig tlodi plant – a chynhyrchu incwm.

'Yn unol â'r newidiadau i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ei hun, bydd y trefniadau cefnogaeth cenedlaethol hyn yn helpu i gefnogi ailffocysu'r rhaglen.'

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH ✆ 029 2043 1700 ✆ 029 2043 1701
www.wcva.org.uk ✆ 0800 2888 329

Rhaglen hyfforddiant i grwpiau gwirfoddol ym mhob cwr o Gymru

Mae rhaglen newydd Cyrsiau i Gymunedau Cymru ar gael yn cynnig hyfforddiant fydd yn helpu mudiadau i ddelio â materion hanfodol megis dod o hyd i gyllid a rheoli asedau.

Lansiodd WCVA, y cynghorau gwirfoddol sirol a chanolfannau gwirfoddoli y rhaglen hyfforddi fis Ebrill ac mae'r ail raglen yn cynnig 54 o gyrsiau.

Bydd rhai yn gyrsiau undydd ac eraill yn hanner diwrnod - a fydd yn cael eu cyflwyno gan aelodau o staff WCVA a chynghorau gwirfoddol sirol, a bydd rhai mudiadau'n dod i mewn i ddarparu hyfforddiant yn rhai o'r meysydd arbenigol a nodwyd hefyd. Dim ond £20 neu lai y dydd yw cost y cyrsiau - sy'n golygu eu bod o fewn cyrraedd grwpiau gwirfoddol mawr a bach.

Dywedodd Kate Thomas, Rheolwraig Hyfforddiant WCVA: 'Mae'n amlwg er bod cyfoeth o hyfforddiant yn cael ei ddarparu i'r sector, prin fu'r cysondeb o ran darparu hyfforddiant craidd i gefnogi grwpiau gwirfoddol i sefydlu a datblygu eu mudiad; cefnogi staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr; codi arian; rheoli eu hasedau; a darparu gwasanaethau gwell.

'Bydd Cyrsiau ar gyfer Cymunedau Cymru yn darparu rhaglen fforddiadwy o gyrsiau y mae eu hansawdd wedi cael eu sicrhau mewn ardaloedd lleol a rhanbarthol ledled Cymru.'

Cynhelir y cyrsiau ledled Cymru a byddant yn edrych ar faterion megis ffurfioli mudiadau, trefnu pwyllgor, monitro a gwerthuso gwaith mudiad, manteisio i'r eithaf ar TG a gweithio gydag eraill.

Mae copiau o Cyrsiau ar gyfer Cymunedau Cymru ar gael oddi wrth Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329, help@wcva.org.uk, eich cyngor gwirfoddol sirol lleol, www.cyrsiauigymunedaucymru.org.uk, neu www.wcva.org.uk.

Undebau credyd yn gweld twf mawr yng Nghymru yn ystod y dirwasgiad

Er gwaetha'r dirwasgiad, mae mwy o bobl yn dewis cynilo ar gyfer achlysuron arbennig ± ac ymddengys bod hynny'n arbennig o wir yn achos y Gorllewin.

Mae nifer aelodau'r banc lleol sy'n cael ei redeg gan y gymuned yng Ngheredigion, Gogledd Sir Benfro a Gorllewin Sir Gaerfyrddin, Credcer, wedi treblu yn ystod y tair blynedd diwethaf. Yn Ionawr 2006, roedd gan y banc 406 o aelodau; erbyn heddiw mae'r ffigur wedi codi i 1,284 ac maent wedi cynilo dros £150,000 gyda'r Undeb Credyd sydd wedi'i gymeradwyo gan yr FSA.

'Mae pobl leol yn cynilo'n wythnosol a misol i gael digon o arian ar gyfer gwyliau, y Nadolig ac yn y blaen,' meddai trysorydd gwirfoddol Credcer, Cris Tomos.

'Gall aelodau hefyd fenthyca oddi wrth yr undeb credyd ar sail eu cynilion. Yn ein cyfarfod cyffredinol blynyddol yn 2008, cytunwyd ar ddifidend aml-haen sy'n talu hyd at 5% ar gynilion yr aelodau, gyda phob aelod iau'n derbyn llog awtomatig o 5% ar gynilion a rhoddion. Mae'r holl gynilion wedi'u diogelu gan gynllun iawndal yr FSA.

'Cadarnhaodd arolwg cenedlaethol diweddar fod undebau credyd y DU yn tyfu ar gyfradd iach - ar gyfartaledd, mae eu maint wedi treblu yn ystod y degawd diwethaf. Mae'n dda cael dweud bod perfformiad Undeb Credyd Credcer wedi rhagori ar y duedd genedlaethol.'

Hefyd bu cynnydd pum gwaith drosodd ym maint eu portffolios benthyca dros y degawd diwethaf, yn ôl adroddiad gan Gymdeithas Undebau Credyd Prydain a'r Co-operative Bank.

Mae'r adroddiad Breaking Through to the Future hefyd yn awgrymu bod y rhan fwyaf o undebau credyd yn rhagweld twf pellach yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r prif ystyriaethau strategol ar gyfer y dyfodol a daw i'r casgliad bod y potensial i'r sector dyfu ymhellach yn un real iawn, cyn belled a bod undebau credyd yn cydweithredu i sicrhau darbodion maint ac arloesi pellach.

Mae'r adroddiad interim ar gael ar wefan yr Uned Ymchwil ar gyfer Cynhwysiant Ariannol yn: http://www.ljmu.ac.uk/HEA/financialinclusion/

Am wybodaeth am Undeb Credyd Credcer galwch 01239 621408 neu ewch i www.credcercreditunion.co.uk.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH ✆ 029 2043 1700 ✆ 029 2043 1701
www.wcva.org.uk ✆ 0800 2888 329

Siarter newid yn yr hinsawdd y sector

Cyn bo hir bydd grwpiau gwirfoddol yng Nghymru ar y blaen yn y frwydr yn erbyn newid yn yr hinsawdd, diolch i ddatganiad a chyfarwyddyd cynhwysfawr sy'n cael eu llunio gan WCVA.

Mae Datganiad y Trydydd Sector yng Nghymru ar Newid yn yr Hinsawdd yn anelu at 'gael y rheini nad ydynt yn ymgysylltu i gymryd cam cyntaf', gan ofyn i bobl ddilyn rhai egwyddorion arweiniol ar ran eu grwp neu eu mudiad.

Caiff ei ddilyn gan WCVA ar le gallant fynd i gael cymorth, a fydd yn mapio'r cymorth sydd ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac asiantaethau a mudiadau eraill ar gyfer y rheini y mae arnynt eisiau gweithredu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

'Bydd y datganiad a'r cyfarwyddyd ar gael ar wefan WCVA, a gobeithio y bydd pobl yn gallu cofrestru gyda'r datganiad yn electronig a bydd dolen at dudalennau gwe newid yn yr hinsawdd Llywodraeth y Cynulliad,' dywedodd Uwch Swyddog Polisi WCVA Bethan Lewis.

Y nod yw cael 200 o lofnodion erbyn mis Ebrill 2010, gyda phosibilrwydd cynnal digwyddiad/lansiad codi ymwybyddiaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn haf 2009.

Gwobrwyo gwirfoddolwyr

Mae prif gynllun gwobrwyo gwirfoddolwyr Cymru ar fin dathlu ei chweched flwyddyn o wobrwyo nifer gynyddol o enwebeion.

Mae Gwobrau Gwirfoddolwyr y Flwyddyn Cymru wedi tyfu'n sylweddol ers ei sefydlu yn 2004. Mae nifer y categorïau wedi tyfu o dri i bump, ac mae nifer yr enillwyr wedi tyfu o naw i 15.

Erbyn hyn, yn ogystal â chydnabod unigolion, pobl ifanc (dan 25 oed) a grwpiau, mae'r cynllun, a gynhelir gan WCVA, hefyd yn gwobrwyo gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr 'gwyrdd'.

Ar hyn o bryd, mae WCVA yn gwahodd enwebiadau ar gyfer y gwobrau, a gefnogir gan Peninsula Business Services. Ceir hyd at dri enillydd ymhob categori, sy'n arwain at 15 enillydd cenedlaethol, a bydd yr enillwyr yn cael eu gwobrau mewn seremoni yng Nghaerdydd fis Mehefin.

Ceir manylion y cynllun a ffurflenni enwebu, wrth Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329 neu drwy anfon e-bost at help@wcva.org.uk. Hefyd, gellir eu llwytho i lawr o'r wefan, www.wcva.org.uk/voty. Y dyddiad cau yw 3 Ebrill.

UCT yn dathlu pum mlynedd o waith

Mae gwasanaeth unigryw a sefydlwyd i sicrhau bod pobl sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed yn addas i wneud hynny wedi helpu mwy na 1000 o fudiadau gwirfoddol yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf.

Mae'r Uned Cofnodion Troseddol (UCT), a reolir gan WCVA wedi cael canmoliaeth gan Weinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Dr Brian Gibbons, a gyfeiriodd ati fel enghraifft dda o bartneriaeth arloesol ar waith rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r trydydd sector yng Nghymru.

Ers ei sefydlu ym mis Rhagfyr 2003, mae'r Uned, a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu archwiliadau cofnodion troseddol yng nghyswllt y rheini sy'n gweithio gyda grwpiau agored i niwed, wedi ymdrin â mwy na 81,000 o geisiadau am archwiliadau, wedi darparu 45,000 o dystysgrifau datgelu ac mae dros 4,000 o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth.

Cyn sefydlu'r Uned, yr unig ffordd y gallai mudiadau gael gafael ar archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gyfer gwirfoddolwyr a staff oedd drwy ddod yn gorff cofrestredig gyda'r Swyddfa, neu drwy wasanaethau corff ymbarél sydd wedi'i gofrestru â'r Swyddfa, sydd gan amlaf yn codi ffioedd gweinyddol rhwng £7 a £70 am bob archwiliad. Er na fydd Uned Cofnodion Troseddol WCVA yn codi tâl am brosesu ceisiadau ar gyfer y sector gwirfoddol, bydd yn rhaid i fudiadau dalu costau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol am archwiliadau ar gyfer staff cyflogedig.

Y flwyddyn nesaf, bydd yr Awdurdod Diogelu Annibynnol newydd ar waith am y tro cyntaf, a bydd yn sicr o gael dylanwad mawr ar y trydydd sector. O fis Hydref 2009 ymlaen, bydd yn rhaid i unrhyw un - yn wirfoddolwyr neu'n staff cyflogedig - sydd am weithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed gofrestru â'r Awdurdod Diogelu Annibynnol newydd drwy'r Cynllun Archwilio Cefndir a Gwahardd.

Mae'r Uned Cofnodion Troseddol wedi'i lleoli yn swyddfa Gogledd Cymru WCVA yn y Rhyl. Gellir cysylltu drwy ffonio 0800 0197 391, neu drwy anfon neges e-bost i cru@wcva.org.uk.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH (029 2043 1700) 029 2043 1701
www.wcva.org.uk (0800 2888 329

Sicrhau bod pawb yn cyfrif - gweithio gyda gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr a staff ag anghenion sgiliau sylfaenol

Mae gan fudiadau'r trydydd sector enw da am eu sgiliau a'u gwybodaeth yng nghyswllt cefnogi a chynnwys defnyddwyr gwasanaeth sydd ag anghenion sgiliau sylfaenol. Maent yn meithrin, yn annog ac yn helpu pobl i gymryd y camau bychain hynny - waeth pa mor fach ydynt - wrth geisio gwireddu eu potensial a gwella'u bywydau.

Yn 2007, cynhaliodd WCVA ymchwil i'r ddarpariaeth sgiliau sylfaenol yn y trydydd sector, a thanlinellodd y canfyddiadau i ba raddau y mae'r sector yn darparu cymorth i ddefnyddwyr gwasanaeth a buddiolwyr ledled Cymru.

Ond beth am y staff, y gwirfoddolwyr a'r ymddiriedolwyr hynny y mae ganddynt, o bosibl, broblemau gyda sgiliau sylfaenol? Amcangyfrifir bod gan un o bob pedwar unigolyn yn y DU rhyw fath o angen sgiliau sylfaenol. Ydyn ni'n deall eu hanghenion? Ydyn ni'n adnabod sut i'w helpu a'u cefnogi yn y rolau sydd ganddynt i sicrhau bod y trydydd sector yn llwyddiannus ac yn gweithredu'n hwylus?

Cynhyrchwyd y ganllaw hawdd ei ddefnyddio yma gan WCVA er mwyn rhoi sylw i faterion sydd yn ymwneud â sgiliau sylfaenol yn y gweithle. Mae'n rhoi syniad o'r mathau o sefyllfaoedd y gallai staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr ag anghenion sgiliau sylfaenol eu hwynebu. Mae hefyd yn rhoi rhywfaint o ganllawiau a syniadau ymarferol ynghylch sut y gall mudiadau'r trydydd sector roi sylw i unrhyw faterion a chefnogi'r unigolion hyn – yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol – i chwarae mwy o ran a pheidio â chael eu hallgau yn y gweithle. Gwelwch hefyd gyfeiriadau at ragor o wybodaeth ac adnoddau.

Mae'r cyhoeddiad ar gael o: www.wcva.org.uk, yn rhad ac am ddim a copïau caled ar gael o Lein Gymorth WCVA 0800 2888 329 neu e-bostiwch help@wcva.org.uk - pris £6 + p a ch.

Gwobr menywod a digartrefedd Val Feld yn galw am geisiadau

Mae gwobr Menywod a Digartrefedd Val Feld 2009 yn awr ar agor ar gyfer ceisiadau. Bwriad y wobr yw cydnabod arloesedd a ffyrdd newydd o ymateb i fenywod ag anghenion tai ledled Cymru.

Croesewir ceisiadau ar gyfer gwobr 2009 gan fudiadau ac unigolion sy'n dymuno gwneud ymchwil i faterion sy'n ymwneud â menywod, tai a digartrefedd; sefydlu neu ariannu astudiaeth ddichonolrwydd ar gyfer prosiect newydd; neu helpu i ddatblygu prosiect sy'n bodoli eisoes. 'Enillydd' y llynedd oedd Janet Keauffling, nyrs digartrefedd sy'n gweithio yng Nghanolfan Gymunedol Cyrenians Cymru yn Abertawe.

Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ceisiadau yw 31 Mai 2009.

Mae rhagor o fanylion ar gael yn www.sheltercymru.org.uk.

Bydd rhifynau nesaf yr atodiad cenedlaethol hwn gan WCVA ar gael ar ddiwedd misoedd Mawrth, Mai, Gorffennaf, Medi a Tachwedd 2009.

Deddf Cadw Data 1998. Cedwir a phrosesir manylion cysylltu pob un sy'n derbyn yr *Atodiad Cenedlaethol* gan WCVA ar gyfrifiadur. Defnyddir y wybodaeth gan WCVA i fonitro a hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Datgelir manylion cysylltu i drydydd parti i fod o gymorth yn y broses hwn.